**COFNODION Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Teams, ar ddydd Mercher, Mehefin 25$^{ain}$, 2025 am 6.30 yh.**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Cyng D. W. Hopkir | Cyng L. Wilkins | Cyng J. Tandy |
| | Cyng A. J. Evar | Cyng R. Barnes | Cyng P. H. Roberts |
| | Cyng G. J. Davie | Cyng E. W. Nicholas | Cyng H. Davies |
| | Cyng R. A. Davie | Cyng L. Wilkins | Cyng C. R. Thomas |
| | Cyng S. Roberts | | |
| **Yn mynychu arlein** | Cyng K. D. L. Davie | Cyng A. W. Jones | Cyng L. Jones |
| | Cyng D. Thomas | Cyng A. L. Thomas. | |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng E. J. Davies | | |

**729.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad oddiwrth un aelod, sef y Cynghorydd E. J. Davies

**730.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT.**

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

**731.**

**COFNODION**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion y Cyfarfod Statudol, a gynhaliwyd ar Fai 28$^{ain}$, 2025.

**Cynigiwyd** bod y Cofnodion yn gywir gan y Cyng S. Roberts ac **eiliwyd** y cynnig gan y Cyng P. Roberts.

- Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin, a gynhaliwyd ar Fai 28$^{ain}$, 2025.

**Cynigiwyd** bod y Cofnodion yn gywir gan y Cyng S. Roberts ac **eiliwyd** y cynnig gan y Cyng C. R. Thomas.

**Derbyn y Cofnodion:**

________________________

Cadeirydd

Gofynnodd y Cadeirydd am gynnig i dderbyn yr holl gofnodion, a **Chynigiwyd** hynny gan y Cyng S. Roberts ac **Eiliwyd** y cynnig gan y Cyng C. R Thomas.

**732.**

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**733.**

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

**734.**

**GOHEBIAETH**

**(i) Ebost ynghlyn ag arian Adran 106 Parc Riverway a dderbyniwyd oddiwrth y Cyng A. Jones.**

Eglurodd y Clerc ei fod wedi cynnig trafod ebost a dderbyniwyd oddiwrth y Cyng A. Jones, a gofynnodd am eglurder ynghylch y ffordd ymlaen. Roedd y Cyng A. Jones wedi cadarnhau ei fod wedi gofyn am gyfraniad ar y cyd i ariannu ail-ddatblygu Parc Riverway, ac roedd wedi gofyn os byddai'r Clerc yn gallu archwilio argaeledd arian Adran 106 yn deillio o ddatblygiadau o gwmpas y parc, ac adrodd yn ôl ynghylch ei ganfyddiadau.

Roedd y Clerc wedi cadarnhau y byddai'n dilyn hyn i fyny gyda'r Cyngor Sir.

**(ii) Adroddiadau'r Heddlu ar Fai 1af, 2025**

| **Ardal Llandybïe** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | 9 |
| Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol | **3** |
| Y Drefn Gyhoeddus | **1** |
| Lladrad | **1** |

| **Penygroes, gan gynnwys y Blaenau a Chaerbryn;** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | **9** |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | **2** |

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Y Drefn Gyhoeddus | |
| Trais Arall | |

| **Saron a Chapel Hendre** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | 13 |
| Y Drefn Gyhoeddus | 3 |
| Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol | 2 |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | 1 |

Er gwybodaeth i'r aelodau a'r cyhoedd, mae ffigyrau Trosedd Ardal Cymuned Llandybïe ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen isod. Roedd y Clerc wedi argymell bod yr aelodau yn astudio map trosedd eu hardal, gan ei fod yn cynnig peth manylion ynghylch y ffigyrau trosedd drwy chwilio'r adran 'yn fy ardal i'.

Llandybie | Police.uk (www.police.uk)

**735.**

**Adroddiad y Clerc, 21/06/25**

**At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor.**

**(a) Parciau:**

**(i) Saron a Chapel Hendre Adran 106. Yn dal ar y restr i'w ddilyn i fyny gyda Chyngor Sir Caerfyrddin**.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad pellach ynghylch y ddau swm, sef £22,320.00 ar gyfer darpariaeth addysg at y dyfodol yn Saron, a £17,680.00 ar gyfer Parc Cwmgwili. Nid oedd unrhyw newyddion pellach i'w gofnodi.

**(b) Llwybrau Troed.**

Bydd y Clerc yn cwrdd ag Alan Warner o Dîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor Sir ar Fehefin 26ain i drafod yr holl lwybrau troed sydd angen sylw, ac yn dodi cynllun gweithredu yn ei le, i'w osod gerbron Cyfarfod Cyffredin mis Gorffennaf.

Cadeirydd

**Diweddariad:** Roedd y Cyng D. Thomas wedi holi ynghylch dau lwybr troed ym Mhenygroes; eglurodd y Clerc y byddai’n darparu diweddariad cynhwysfawr yng nghyfarfod Gorffennaf, a derbyniwyd yr ateb hwn.

**(c) Prosiect Parc Banc Y Ddraenen:**

Roedd y Clerc wedi cynnig y diweddariad canlynol:

- Roedd y gwaith yn ardal y warchodfa natur wedi’i brisio gan yr ymgynghorwyr, ac yn aros am yr arian grant Adran 106. Roedd y gost tua £5,000, gyda chost blynyddol o £1,000 dros 25 mlynedd i’w osod yng ngofal Cyngor Sir Caerfyrddin, ac i’w ryddhau yn flynyddol i dalu am waith cynnal a chadw yn yr ardal i dorri’r glaswellt a thacluso.
- Mae’r Clerc yn aros am hysbysiad, wedi i’r caniatâd cynllunio ar safle cyfagos gael ei ddyfarnu, i weld pa bryd y bydd yr arian Adran 106 ar gael er mwyn dechrau’r prosiect. Yn sgil hyn, mae’n werth nodi efallai bydd goblygiadau o ran Parc Saron.

  **Diweddariad:** Roedd y Clerc wedi derbyn neges oddiwrth y datblygwr, a oedd hefyd wedi’i gopïo at y Cyngor Sir, yn dweud y bydd nawr yn ystyried cadarnhau’r swm o arian Adran 106 ar gyfer y prosiect. Roedd y Clerc wedi gofyn i’r Adran Gynllunio am eglurhad ynghylch yr her i’r penderfyniad, a pha effaith a fyddai hyn yn cael ar yr arian Adran 106 a fydd ar gael.

**(ch) Cyrtiau Tenis Llandybïe:**

Erbyn hyn mae’r gwaith ar y cyrtiau wedi’i orffen ac mae chwarae tenis wedi ail-ddechrau.

**Diweddariad:** Rhoddodd y Clerc ddiweddariad i’r cynghorwyr, gan ddweud y byddai digwyddiad i lansio’r cyrtiau tenis newydd yn cael ei drefnu, ac y byddai’n rhoi gwybod i’r holl gynghorwyr pan fod y clwb tenis a’r Cadeirydd wedi penderfynu ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul addas. Estynnir groeso i’r holl gynghorwyr.

**(d) System Wresogi yn y Pafiliwn Bowlio a Thenis:**

Roedd cyfarfod Cronfa Fferm Wynt y Betws a gynhaliwyd ar Fai 28ain wedi penderfynu gohirio’r cais, a’i gyfeirio at Gynllun Ynni Gwyrdd Cymunedol mwy addas a fydd yn agor yn y 4 a 6 wythnos nesaf. Mae’r Clerc yn cydweithio gyda thîm grantiau’r Cyngor Sir i gaffael arian cyfatebol gan ddilyn y llwybr hwn.

**Diweddariad:** Eglurodd y Clerc ei fod wedi siarad ar y ffôn gyda Thîm Grantiau’r Cyngor Sir, a bydd y cynllun grant yn agor ar gyfer ceisiadau ym mis Awst 2025.

**(dd) Prosiect Baeddu gan Gŵn:**

Mae'r camerâu Teledu Cylch Cyfyng symudol, gydag adnabyddiaeth AI, wedi bod ar y safle ym Mharc Saron am bythefnos ac wedi'u lleoli ym mhen isaf Parc Penygroes am 4 wythnos.

Mae'r Swyddog Gweinyddol wedi ysgrifennu at yr holl Ysgolion Cynradd yn ein hardal i gynnig iddynt y cyfle i gystadlu yn y gystadleuaeth dylunio poster Taflu Sbwriel/ Baeddu gan Gŵn.

Mae'r Clerc mewn cyswllt cyson gyda'r Swyddog Gorfodi'r Amgylchedd a'n Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac mae teithiau cerdded cyson yn cael eu cynnal er mwyn monitro cynnydd.

**Diweddariad:** Roedd y Cyng D. Thomas am iddo gael ei nodi ei fod wedi bod yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth ynghylch y broblem Baeddu gan Gŵn, ac o'r farn bod hyn wedi lleihau'r cwynion, a diolchodd i'r Clerc am ei waith ar y prosiect.

**(e) Teledu Cylch Cyfyng Saron:**

Erbyn hyn, roedd tri contractwr wedi cyflwyno dyfynbrisiau, gyda'r dyfynbris isaf o eiddo Dyfed Alarms, sef £2,571 a TAW. Roedd gennym gyllideb o £5,000. Y dyfynbris agosaf at yr enillydd oedd £2969 a TAW.

**Diweddariad:** Roedd y Clerc wedi gofyn caniatâd y cyfarfod i dderbyn dyfynbris Dyfed Alarms er mwyn bwrw ymlaen gyda'r gwariant,

**Penderfynwyd** cytuno ar y gwariant o £2,571 a TAW.

**(f) Taenlen Baeddu gan Gŵn a phlannu coed**:

Bydd y Clerc yn dosbarthu taenlen ddiwygiedig i'w thrafod yn y cyfarfod; bwriad y Clerc oedd roi cyfle i'r cynghorwyr ddiweddaru'r daenlen ynghylch Mannau Problemus Baeddu gan Gŵn, a chyfleoedd Plannu Coed.

**(ff) Uwchraddio Parc Saron:**

Mae'r Clerc wrth waith yn cwblhau'r dyfynbrisiau ac yn caffael prisiau oddiwrth dri contractwr addas i uwchraddio'r parc, yn unol â'r gwariant cyllideb y cytunwyd ar ar gyfer 2025/26. Y gobaith yw y bydd y prosiect yn dechrau ym mis Medi 2025.

**Diweddariad:** Roedd y Clerc wedi hysbysu'r cynghorwyr y byddai'n cwrdd â Wicksteed, y trydydd cwmni a ofynnwyd am ddyfynbris, yn ystod yr wythnos ddilynol.

**(g) Y Gymuned Deithiol ym Mharc Penygroes:**

Cadeirydd

Ar Fehefin 19$^{\text{eg}}$, gyda'r nos, roedd y Cynghorwyr D. Thomas a P. H. Roberts wedi hysbysu'r Clerc bod naw carafan wedi ymsefydlu eu hunain ar y Cae Rygbi. Roedd y Clerc wedi ymgynghori gyda'r tri cynghorydd a Chlwb Rygbi Penygroes i sefydlu'r gwirionedd, ac wedi cydweithio gyda Gruff Rees, Swyddog Ymgysylltu'r Gymuned Deithiol y Cyngor Sir, sydd wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Gorfodi Hŷn. Mae fe yn llunio hysbysiad gorfodi, i'w gyhoeddi ar ddydd Llun, Mehefin 23$^{\text{ain}}$, yn rhoi i'r teithwyr rhybudd o lai nag wythnos i adael y safle.

**Diweddariad:** Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod y teithwyr wedi gadael y safle rhwng nos Lun a bore Mawrth. Roedd y Cyng D. Thomas am nodi ei ddiolch i'r Clerc, am iddo weithredu'n ddi-oed i ddelio â'r sefyllfa.

Holodd y Cyng A. J. Evans os oedd gan y Cyngor Cymuned yswiriant i ddiogelu rhag ail-ddigwyddiad o'r fath, a chanlyniad llai na chydweithredol, yn enwedig o ystyried ein bod yn gyfrifol am 9 parc arall. Dywedodd y Clerc y byddai'n cysylltu â'r cwmni yswiriant i wirio hyn.

Dai Nicholas – Clerc

Mehefin 21$^{\text{ain}}$ 2025

**736. Trafodaeth ynghylch rhesymoli'r pwyllgorau.**

**(i) Strwythur y pwyllgorau, nifer yr aelodau a chyfuno.**

Roedd y Cadeirydd wedi agor y drafodaeth ynghylch y ddogfen a ebostiwyd gan y Clerc, yn amlinellu pa gynghorwyr oedd yn aelodau o bob pwyllgor ar hyn o bryd.

Roedd y Cadeirydd wedi cynnig bod un cynghorydd o bob ward yn cael ei benodi, a gwahoddodd sylwadau. Roedd y Cynghorwyr D. Thomas, K. D. L Davies, N. C. Davies a R. A. Davies o'r farn bod hyn yn rhy gyfyngol; roedd y Cadeirydd wedi derbyn hyn, ac wedi gofyn bod y cyfarfod yn derbyn y strwythur Pwyllgorau a awgrymwyd yn y ddogfen a ddosbarthwyd, gan gynnwys cyfuno'r pwyllgorau, a bod hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnodion.

**Penderfynwyd** cytuno ar hyn.

**(ii) Penodi aelodau i'r strwythur pwyllgorau newydd.**

Roedd y Cadeirydd wedi arwain y cynghorwyr drwy gynnwys pob pwyllgor a gofynnod am enwebiad, a chynigiwyd bod pob cyfarfod yn cael ei gynnal ar ail ddydd Mercher pob mis. Trafodwyd y rhestr ganlynol:

| 1 | **Pwyllgor** | **Rhestr yr aelodau newydd** | **Cadeirydd/Is-Gadeirydd** | **Nifer y cyfarfodydd** |
|---|---|---|---|---|
| | Parciau a Mannau Chwarae | L. Wilkins, P. H. Roberts, R. Barnes, D. W. Hopkins (Cyn-Gadeirydd) | J. W. Tandy | 4 |
| | Hawliau Tramwy Cyhoeddus | S. Roberts, H Davies, N. C. Davies, G. J. Davies, | A. J. Evans | |
| | Amgylchedd | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Polisi<br><br>Cyflogaeth | L. Wilkins, A. W. Jones, R. A. Davies, A. L. Thomas<br>R. Barnes, C. R. Thomas, D. Thomas, D. Hopkins<br>(Cyn-Gadeirydd) | J. W. Tandy<br><br>A. J. Evans | 2 |
| 3 | Cyllid | L. Wilkins, R. A. Davies, E. J. Davies, Mrs K. D. L. Davies,<br>C. R. Thomas, D Thomas, P. H. Roberts, D. W. Hopkins (Cyn-Gadeirydd) | J. W. Tandy<br><br>A. J. Evans | 4 |
| 4 | Datblygu Cymunedol<br><br>Codi Proffil | L. Wilkins, C. R. Thomas, A. L. Thomas, L. Thomas, P. H. Roberts<br>E. J. Davies, H. Davies, D. W. Hopkins (Cyn-Gadeirydd)<br>NB; Sian Tylor yw'r Clerc | A. J. Evans<br><br>J. W. Tandy | 1 |
| 5 | Cynllunio | L. Wilkins, S. Roberts, E. W. Nicholas, G. J. Davies, D. Thomas,<br>Mrs K. D. L. Davies, L. Thomas, D. W. Hopkins (Cyn-Gadeirydd) | A. J. Evans<br><br>J. W. Tandy | 10 |
| 6 | Cyffredin a Statudol | Pob Cynghorydd | J. W. Tandy | 10 |
| 7 | Statudol | Pob Cynghorydd | J. W. Tandy | 1 |

**Cynigiwyd** gan y Cadeirydd, y Cyng J. W. Tandy ac **eiliwyd** y cynnig gan y Cyng C. R. Thomas.
**Penderfynwyd** derbyn y cynnig, a bydd y Clerc yn dosbarthu'r rhestr newydd ac yn diweddaru'r wefan.

**737.**

**Diweddariad ynghylch Gilfach Iago.**

Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi derbyn diweddariad yn dweud bod y Cyngor Sir yn dal i aros am ddyddiad mynychu'r llys

**738.**

**(i) Incwm**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Prasept | 193860.00 | 64620.00 | **-129240.00** |
| Ffurflen TAW (ad-daliad) | 24000.00 | 0.00 | **-24000.00** |
| Gweinyddu | 3000.00 | 3000.00 | **0.00** |
| Llog Banc | 4300.00 | 61.59 | **-4238.41** |
| Cytundebau Llogi/Grantiau/ | 20000.00 | 0.00 | **-20000.00** |

Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adran 106 | | | |
| **Cyfanswm** | 245160.00 | 67681.59 | **-177478.41** |

**(ii) Gwariant**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Torri'r Glaswellt | £31,500.00 | £1,060.00 | **£30,440.00** |
| Cyflogau Staff a PAYE | £57,252.00 | £10,492.58 | **£46,759.42** |
| Gwasanaethau Swyddfa | £7,500.00 | £7,342.27 | **£157.73** |
| Yswiriant | £3,600.00 | £3,295.22 | **£304.78** |
| Grantiau Ariannol (Mannau Agored, Neuaddau, Mynwentydd) | £20,000.00 | £0.00 | **£20,000.00** |
| Cynnal a chadw asedau (Cyfleusterau Cyhoeddus, adeiladau, parciau, hawliau tramwy cyhoeddus, claddfeydd) | £47,495.00 | £9,864.05 | **£37,630.95** |
| Gwasanaethau a Thanysgrifiadau | £6,050.00 | £0.00 | **£6,050.00** |
| Lwfansau'r Aelodau a PAYE | £15,000.00 | £663.00 | **£14,337.00** |
| Costau Etholiad | £8,000.00 | £7,011.27 | **£988.73** |
| Adran 137 | £20,000.00 | £0.00 | **£20,000.00** |
| Goleuo | £4,000.00 | £6,207.42 | **£2,207.42** |
| Datblygu Cymunedol | £48,500.00 | £2,160.00 | **£46,340.00** |
| **Cyfanswm** | £268,897.00 | £48,095.81 | **-£220,801.19** |

**(iii) Taliadau hyd at Fehefin 21ain.**

| | |
|---|---|
| Dynevor Trees, Canghennau'n bargodi'n beryglus, anfoneb 07.05.25 | 450.00 |
| K D Gardening Services, Glanhau'r Toiledau, mis Mai, anfoneb 0230 | 891.25 |
| YGP, rhan-daliad o anfoneb 982009, Mawrth/Ebrill/Mehefin, sy'n destun dadl | 192.00 |
| Pensiwn NEST, Mai 2025 | 404.25 |
| Dŵr Cymru, Rhagfyr – Mai, anfoneb 6095942943 | 579.12 |
| Aelodaeth Rheilffordd Calon Cymru, anfoneb cyf m1002s30c0d0 | 30.00 |
| Cinio Maer Cyngor Tref Llandeilo, anfoneb Cinio'r Maer | 80.00 |

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| 300525 | |
| Morgan & Morgan, Band llydan misol, anfoneb 95519 | 35.99 |
| D Nicholas, Treuliau teithio 6 mis | 218.11 |
| D Nicholas, Vodafone a chostau post 6 mis | 117.39 |
| LHP Xero, Trwydded ac Hyfforddiant | 154.80 |
| Meysydd Chwarae De Cymru, anfoneb 2067 | 2160.00 |
| Morgan & Morgan, llog y Llungopïwr, anfoneb 203742 | 12.00 |
| Martin Davies, Cyfieithu, anfoneb Mai 28ain | 232.31 |
| Cyflog D. Nicholas | 2429.19 |
| Cyflog S. Taylor | 755.73 |

**Taliadau am anfonebau a dderbyniwyd ar Fehefin 21ain.**

| | |
|---|---|
| Mike Voyle, Atgyweirio cysylltiad yng Nghapel Hendre, anfoneb 0189 | 232.31 |
| Diffoddwyr Tân Uniserve, Cynnal a Chadw ac offer newydd, anfonb 2091, swyddfeydd y Cyngor | 84.00 |
| Diffoddwyr Tân Uniserve, Cynnal a Chadw, anfoneb 2092, Swyddfeydd y Stryd Fawr | 342.00 |
| Diffoddwyr Tân Uniserve, Cynnal a Chadw, anfoneb 2093 Ieuenctid Saron | 116.40 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR CYMUNED / LLANDYBIE COMMUNITY COUNCIL** | | | | | |
| **Mantolen 2025-2026 o Ebrill 1af; Accounts from April 1st** | | | | | |
| | | | | | |
| **Paratowyd gan - D Nicholas** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31/04/2026** | | | | | |
| **BALANS Y CYFRIFON** | | | | | |
| | | | | | **£** |
| | | | | | |
| **Dygwyd Ymlaen (balans cychwynnol yn y banc)** | | | | | **£244,242.20** |
| | | | | | |
| **Ychwanegu incwm yn ystod y flwyddyn** | | | | | **£67,681.59** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | **£311,923.79** |
| | | | | | |
| **Llai y gwariant** | | | | | **£48,536.05** |
| | | | | | |
| **Balans wrth Gau'r Daenlen Gyllid** | | | | | **£263,387.74** |
| **(derbyniadau - taliadau)** | | | | | |
| | | | | | |
| **Taliadau/ sieciau na's cyflwynwyd** | | | | | |
| | | | | | |
| **GWIR FALANS Y DATAGANIAD** | | | | | **£263,387.74** |

______________________________

Cadeirydd

Roedd y Clerc wedi nodi ebost a dderbyniwyd oddiwrth y Cyng P. H. Roberts yn dweud bod camgymeriad ym malans y cofnod 'Cyllideb Goleuo'. Cadarnhaodd y Clerc bod y rhagdybiaeth honno'n gywir, ac wedi cywiro'r cofnod, a byddai'n cynnwys y cywiriad yn y cofnodion.

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Clerc.

**Diweddariad ynghylch yr Archwiliadau Mewnol ac Allanol, 2024/25**

Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod y wybodaeth parthed â'r Archwiliad Mewnol wedi'i throsglwyddo i'r Archwilydd Mewnol, a'i fod yn y broses o gyhoeddi hynny a mynd ati i weithredu'r Archwiliad Allanol Llawn.

**739.**

**Cyllid Adran 106.**

Nid dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad oddiwrth y Cynghorwyr Sir a oedd yn bresennol.

**740.**

**Ceisiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd**

Cyhoeddodd y Clerc ei fod wedi mynychu Noson y Maer, Cyngor Tref Llandeilo, ac wedi gweld ei fod yn gyfle defnyddiol iawn i rwydweithio.

Roedd y Cadeirydd hefyd wedi diweddaru'r cynghorwyr bod cyfarfod rhwydweithio o Feiri a Chadeiryddion cynghorau lleol yn cael ei letya gan Gyngor Cymuned Llandybïe yn y Pafiliwn Bowlio a Thenis; bydd hwn hefyd yn gyfle i gasglu gwybodaeth ynghylch arfer da.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd, y Cyng A. J. Evans, ei bod hi, yng nghwmni'r Cadeirydd a chynghorwyr Saron, wedi mynychu digwyddiad i ddathlu bywyd Agnes Davies, Pencampwraig Snwcer y Byd. Roedd wedi bod yn brynhawn difyr ac wedi'i gofnodi ym mhapur newydd y South Wales Guardian.

**741.**

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar ddydd Mercher, Gorffennaf 30$^{ain}$, 2025, a chyfarfod y Pwyllgor Polisi a Chyflogaeth ar Orffennaf 9$^{fed}$, 2025.

____________________________

Cadeirydd

**742.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i’w drafod, **daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben** am 7.28 yh.

Cadeirydd